# Galwadau Maniffesto Leonard Cheshire Cymru Etholiadau'r Senedd 2021



Leonard Cheshire Cymru

# Mwy am Leonard Cheshire

Mae Leonard Cheshire yn cefnogi unigolion i fyw, dysgu a gweithio mor annibynnol ag y mynnant, waeth beth yw eu gallu. Dan arweiniad pobl sydd â phrofiad o anabledd, rydym ynghanol bywyd y gymuned, yn agor drysau i gyfle, dewis a chefnogaeth mewn cymunedau ledled y byd. Mae ein ffordd o weithio yn seiliedig ar fframweithiau byd-eang Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD), a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDCau). Trwy ein gwaith rhaglen a pholisi cynhwysfawr yn y DU ac yn rhyngwladol, mae Leonard Cheshire mewn sefyllfa unigryw i gynrychioli anghenion pobl anabl ar draws yr ystod eang o gyd-destunau a lleoliadau y mae pobl anabl yn byw ynddynt.

Yn y DU, rydym yn un o'r darparwyr gwasanaethau mwyaf yn y sector gwirfoddol i bobl anabl. Gweithiwn mewn cymunedau lleol i gynnig cyfle, dewis a chefnogaeth i bobl. Mae gennym wasanaethau llety (gan gynnwys byw gyda chymorth a chartrefi gofal cofrestredig) a rhaglenni cymdeithasol, addysg a hamdden – gan gynnwys cymorth dydd, gwasanaethau allestyn cymunedol a chymorth seibiant sy'n cefnogi miloedd o bobl yn uniongyrchol. Darparwn wasanaethau hyfforddiant sgiliau a chyngor i bobl anabl trwy ein rhaglenni cyflogaeth sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn dod o hyd i swyddi a'u cadw.

Rydym yn dylanwadu ar bolisïau anabledd-gynhwysol trwy weithio mewn partneriaeth gyda Sefydliadau Pobl Anabl (SPAau), yn ogystal â gyda gwahanol asiantaethau rhyngwladol[1] a busnesau sector preifat i hyrwyddo'r nod o gynnwys pobl ag anableddau i sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl wrth i wledydd symud tuag at wireddu'r NDCau. Yn ogystal â dylanwadu ar bolisi, mae Leonard Cheshire yn darparu rhaglenni i gyflymu'r broses o gynnwys pobl anabl mewn addysg, byd gwaith ac amddiffyniadau cymdeithasol mewn partneriaeth â SPAau lleol mewn gwledydd ar draws Asia ac Affrica, ac mae ein tîm ymchwil yn gweithio'n agos gyda gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr a phartneriaid i ddatblygu data a thystiolaeth cryf ar anabledd a materion cysylltiol.

**Gall y Llywodraeth Cymru nesaf ofalu y gall pobl anabl, yn y DU ac yn rhyngwladol, fyw, dysgu a gweithio mor annibynnol ag y mynnant trwy ymrwymo i'r bum egwyddor ganlynol.**

Os ydych yn darllen hwn yn electronaidd, pryd bynnag y gwelwch yr eicon ▶ hwn gwasgwch neu tapiwch i gael mwy o wybodaeth.

Os hoffech gael fersiwn electronaidd lawr lwythwch o: **leonardcheshire.org/manifesto-asks/english-brochure.pdf**

[1] Mae'r asiantaethau rhyngwladol y gweithiwn yn agos â nhw yn cynnwys Banc y Byd, y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, UNESCO, UNHCHR Partneriaeth y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Gweithiwn mewn partneriaeth â'r Cynghrair Anabledd Ryngwladol, y Consortiwm Anabledd a Datblygu Rhyngwladol yn ogystal â phartner fudiadau mewn gwledydd yn Affrica ac Asia.



1

# Proffesiynoli gweithlu gofal cymdeithasol Cymru

Nid yw'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei werthfawrogi na'i staffio'n ddigonol o hyd. Mae mawr angen gwella proffil gofal cymdeithasol a chadw staff a lleihau nifer y swyddi gwag. Mae angen ymyriad brys i sefydlogi a gwella'r rhagolygon ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:**

- Sefydlu tâl cyfartal rhwng gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Gwella'r gefnogaeth a'r adnoddau i ofalwyr, tra yn y proffesiwn ac yn y swydd, i sicrhau a gwella ansawdd gofal.
- Adolygu amodau a thelerau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal trigiannol er mwyn gwella lefelau cadw staff a phroffil cyhoeddus y sector.
- Blaenoriaethu gofal cymdeithasol mewn cyllidebau i'r dyfodol.
- Cydnabod effeithiau Covid-19 ar ddarparwyr trydydd sector, a sicrhau bod rhwyd diogelwch ar gael i gefnogi'r sector i ddarparu gwasanaethau.
- Cynnal ymchwiliad i gysondeb ac ansawdd gofal cymdeithasol ledled Cymru er mwyn cyfyngu ar. .effeithiau'r 'loteri cod post'.

2

# Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fodolaeth taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol

Mae gan bobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol hawl cyfreithiol i gael dewis o dderbyn arian ar ffurf taliadau uniongyrchol (y gallant eu defnyddio i dalu am ofal yn breifat) neu i'r arian gael ei sianelu trwy awdurdodau lleol. Mae gan y ddau ddull eu cefnogwyr a'u beirniaid. Fodd bynnag, mae llawer o bobl anabl yn dweud nad ydynt yn gwybod am y dewis hwn.



**"Yn ystod y pandemig ni allwn gael unrhyw PPE ar gyfer y ddau Gynorthwy-ydd Personol rwyf yn eu cyflogi ar gyfer fy merch. Mae angen i Lywodraeth Cymru ofalu fod pobl yn gwybod am daliadau uniongyrchol, a sicrhau bod llinellau ffôn a systemau cymorth yn eu lle; mae llawer o bobl anabl yn cael anawsterau gyda thechnoleg ddigidol yn aml, sy'n golygu y gall. fod yn anodd cael cymorth pan rydym ei angen"**

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am:**

- Fodolaeth taliadau uniongyrchol i'r sawl sy'n derbyn gofal cymdeithasol (yn hytrach na bod yr arian yn mynd drwy awdurdodau lleol).
- Y ffaith fod gan y sawl sy'n derbyn gofal cymdeithasol y dewis o benderfynu a fydd arian gofal cymdeithasol yn cael ei dderbyn yn daliadau uniongyrchol neu a fydd yn cael ei dalu i awdurdodau lleol.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n derbyn arian gofal y gallant ddewis a fydd arian gofal cymdeithasol yn cael ei dderbyn yn daliadau uniongyrchol neu a fydd yn cael ei dalu i awdurdodau lleol.



3

# Integreiddio cyllido iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r sector gofal cymdeithasol wedi rhybuddio fod angen rhoi mwy o bwyslais ar greu gwasanaeth holistaidd a chydlynol, sy'n rhoi'r person ynghanol eu cynllun gofal. Bydd uno ffrydiau ariannu iechyd a gofal cymdeithasol yn gwella llesiant yn y gymuned; yn creu llai o gystadlu am gyllid digonol rhwng y ddau sector; llai o oedi wrth drosglwyddo cleifion o ysbytai; llai o asesiadau a phecynnau gofal amhriodol; a gwasanaethau symlach sy'n blaenoriaethu llesiant cleifion ynghyd â'u hiechyd.



**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i integreiddio ariannu iechyd a gofal cymdeithasol, yn ymgorffori:**

- Symleiddio'r trefniadau ariannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn lleihau'r angen i gystadlu a chael gwared ag arferion anghydnaws.
- Gwell gwybodaeth a thechnoleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a lleihau anghydnawsedd rhwng partner wasanaethau.

[2] Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Abertawe: Gwerthusiad Realistig o iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn yng Nghymru, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a llesiant: Adroddiad Interim. 2013. Dolen: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/131015-evaluation-integrated-health-social-care-older-people-interim-report-en.pdf

# 4

## Rhoi pobl anabl ynghanol gwleidyddiaeth Cymru

Credir fod gan gymaint ag un person wedi ymddeol o bob tri anabledd. Ond nid yw'r amlder yma'n cael ei adlewyrchu yn arweinyddiaeth wleidyddol Cymru.

**Mae gan fwy nac un person oed gwaith o bob pump yng Nghymru anabledd.[3]**

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:**

- Gyhoeddi data dienw ar nifer yr ymgeisyddion anabl hunan-gydnabyddedig y mae plaid yn eu cynnig yn etholiad 2026.
- Dileu – cyn Ionawr 2022 – terfynau gwariant etholiadol ar bob ffurf ar wariant yn gysylltiedig ag anabledd (gan gynnwys fersiynau Easy Read a Braille o faniffestos).
- Sefydlu – cyn Ionawr 2022 – cronfa mynediad at swyddi etholedig gydag arian cyhoeddus sy'n darparu cyllid i ddarparu ar gyfer gwariant ymgeisyddion yn gysylltiedig ag anabledd.

[3] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-disabledstatus-fromapril2013



# 5

## Cael gwared â rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cael a chadw swyddi

Mae pobl anabl yn cynnig cyfoeth o dalent, profiad a safbwyntiau i'r gweithlu, ond mae llawer o bobl anabl yn dal i wynebu rhwystrau sylweddol wrth geisio cael gwaith. O'r herwydd, mae bwlch arwyddocaol o hyd rhwng cyfradd gyflogaeth pobl anabl a gweddill y boblogaeth.

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:**

- Ddiweddaru'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd presennol i gynnwys achrediadau a gwerthusiadau allanol blynyddol.[4]
- Mynnu fod Arweinyddion Hyderus o ran Anabledd yn dangos eu bod yn cyflogi canran rhesymol o bobl sy'n ystyried eu hunain yn anabl.
- Mynnu fod pob sefydliad yn cyflogi dros 250 o weithwyr yn cyhoeddi data dienw blynyddol ar nifer y bobl anabl hunan-gydnabyddedig sy'n gweithio iddynt.
- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud y gallu i ofyn am weithio'n hyblyg yn hawl i weithwyr yn union o'r 'diwrnod cyntaf'.[5]
- Gwella ymwybyddiaeth o Fynediad i Waith.[6]
- Mabwysiadu targed uchelgeisiol i gau'r bwlch cyflogaeth oherwydd anabledd.[7]
- Ei gwneud yn un o amodau derbyn arian cyhoeddus fod sefydliadau sy'n ei dderbyn yn dangos ymrwymiad i fod yn gyflogydd hyderus o ran anabledd, a bod o leiaf 10 y cant o'u gweithlu yn bobl anabl hunan-gydnabyddedig.

[4] Yn seiliedig ar gyfweliadau ac ymgysylltu gyda gweithwyr sefydliad

[5] Ar hyn o bryd nid yw'r hawl hwn (y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014) ond ar gael i weithwyr sydd wedi gweithio i sefydliad am 26 wythnos. Byddai gwneud hawl 'diwrnod 1' yn adlewyrchu'r ffaith fod trefniadau gweithio'n hyblyg (megis oriau cywasgedig neu bob yn dipyn a gweithio o gartref) yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i allu person anabl i aros mewn gwaith.

[6] Mae Mynediad i Waith yn gynllun y DU sy'n ariannu addasiadau (technoleg, teithio, cymorth) sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ystyried yn 'rhesymol' i gyflogydd ei ariannu; ac sy'n darparu cyngor ac asesiadau uniongyrchol. Dim ond 14 y cant o oedolion anabl yng Nghymru roddodd wybod i Leonard Cheshire eu bod neu y buont yn derbyn cymorth Mynediad i Waith, o gymharu â 25 y cant o oedolion anabl yn Lloegr.

[7] Rhaid i gynllun gweithredu fod yn rhan ganolog o'r targed hwn fel bod rhaglenni cynnal cyflogaeth y llywodraeth yn cael eu gwerthuso yn ôl y deilliannau swydd maen nhw'n eu sicrhau er mwyn creu newid ystyrlon a pharhaus i bobl anabl.

6

# Ymgorfforí Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yng Nghyfraith Cymru a phenodi Comisiynydd Pobl Anabl

Yn 2009, ymrwymodd y DU i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD).[8] Ond fwy na degawd yn ddiweddarach nid yw hawliau pobl anabl yn cael eu hymgorffori mewn cyfraith, sy'n golygu na allant gymryd camau cyfreithiol os caiff eu hawliau eu torri. Mae hefyd yn hen bryd sefydlu Comisiynydd Pobl Anabl, y byddai ei g/chyfrifoldebau yn cynnwys hyrwyddo a lleisio hawliau pobl anabl, ac ymchwilio pan dorrid hawliau o'r fath.

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:**

- Ddeddfu i ymgorffori hawliau pobl anabl yng nghyfraith Cymru.
- Sefydlu Comisiynydd Pobl Anabl, y byddai ei g/chyfrifoldebau yn cynnwys ymchwilio unrhyw enghreifftiau o dorri hawliau pobl anabl.



[8] https://www.equalityhumanrights.com/en/our-human-rights-work/monitoring-and-promoting-un-treaties/un-convention-rights-persons-disabilities







**Dylai pobl anabl fod ynghanol gwleidyddiaeth Cymru. Ased mwyaf unrhyw lywodraeth yw ei phobl ei hun, ac mae'n ddiamau y dylid cynnwys pobl anabl er mwyn sicrhau Cymru. ffyniannus a chyfartal**

**Kyle Jamie Eldridge**
Ymgyrchydd Hawliau Pobl Anabl a Gwirfoddolydd

7

# Gwneud Cymru yn hygyrch

Yn rhy aml, mae cymdeithas yn gosod rhwystrau o flaen pobl anabl, sy'n atal neu'n llesteirio mynediad.

Mae gwarchae COVID-19 wedi rhoi i bawb ymdeimlad o'r profiad o fod yn berson anabl heb allu defnyddio **trafnidiaeth** gyhoeddus. Yn aml iawn trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch ac o safon uchel yw'r gwahaniaeth rhwng person anabl yn teimlo'n ynysig ac wedi'u heithrio o fywyd y gymuned, neu gallu mynd allan yn gorfforol i weithio a chymdeithasu.

**Nid oes gan 21 y cant o orsafoedd rheilffordd yng Nghymru fynediad di-ris, ac ar y cyflymdra presennol ni fydd gorsafoedd yn hygyrch tan 2070.[9]**

## Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Roi ar waith ddyletswydd gyfreithiol gyfrwymol ar Lywodraeth Cymru i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob taith trên yng Nghymru yn gwbl hygyrch erbyn 2030.
- Sicrhau bod pob llwybr teithio yn cynnwys cyrbau isel wedi'u darparu o leiaf bob 100 metr i atal defnyddwyr cadeiriau olwyn rhag gorfod gwneud amdeithiau hir er mwyn croesi'r ffordd.
- Ailasesu systemau trafnidiaeth (bysiau, tacsis, mesuriadau a ddefnyddir ar gyfer lleoedd parcio cadeiriau olwyn) gyda'r bwriad o gael gwared â rhwystrau i bobl anabl yng Nghymru.

[9] Leonard Cheshire. Ymgyrch Trenau i Bawb, 2019. Mae Leonard Cheshire wedi cynnal dadansoddiad data o'r cyfleusterau mynediad di-ris sydd ar gael mewn gorsafoedd rheilffordd yng ngwledydd Prydain. Casglwyd y data hwn trwy ddefnyddio gwybodaeth ar wefan National Rail ym mis Hydref 2019. Cafodd y gorsafoedd eu mapio fesul rhanbarth gan ddefnyddio cronfa ddata ONS National Statistics Postcode Lookup sydd ar gael yn https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/geographicalproducts/postcodeproducts



Yn 2014, amlygodd ein hymgyrch Home Truths yr argyfwng **tai** cuddiedig yng Nghymru: nid oes modd addasu llawer o gartrefi ar gyfer anghenion pobl anabl. A hyd yn oed pan ellir addasu cartrefi, yn rhy aml nid oes gan awdurdodau lleol gofrestri tai hygyrch effeithiol sy'n golygu y gellir gwneud y defnydd gorau o stoc tai cymdeithasol wedi'i addasu, sefyllfa sy'n aml yn golygu fod addasiadau'n cael eu tynnu'n wastraffus allan o dai gan nad ydynt yn diwallu anghenion pobl nad ydynt yn anabl.

## Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Sicrhau bod pob tŷ yng Nghymru yn cael eu hadeiladu i fodloni'r holl Safonau Cartrefi Gydol Oes yn llawn.
- Adolygu'r defnydd o gofrestri tai hygyrch i sicrhau bod system effeithiol ac effeithlon ar waith ar gyfer cysylltu anghenion pobl anabl gyda chartrefi wedi'u haddasu.
- Sicrhau bod o leiaf 10 y cant o'r holl gartrefi. newydd yn cael eu hadeiladu i safonau hygyrchedd cadeiriau olwyn llawn.



Mae **chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol** yn chwarae rhan allweddol yn iechyd a llesiant meddyliol pob un ohonom, gan wella ffitrwydd a chynnig ymdeimlad hollbwysig o gymuned. Ond yn llawer rhy aml, nid yw pobl anabl yn gallu defnyddio'r cyfleusterau. Weithiau mae hynny oherwydd diffyg offer campfa corfforol. Weithiau mae oherwydd ffactorau amgylcheddol (er enghraifft, mae cerddoriaeth uchel yn gallu bod yn anodd i bobl ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth). Weithiau mae oherwydd diffyg dealltwriaeth o bobl anabl, a'r ffaith fod pobl anabl eisiau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol.

Hefyd, dylai fod gan bobl anabl gymaint o hawl i fynd i dafarnau ag unrhyw berson arall. Yn aml iawn nid oes mynediad heb risiau mewn tafarnau; mae byrddau a chadeiriau yn rhy agos at ei gilydd ar gyfer cadeiriau olwyn; mae'r bariau yn rhy uchel i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn allu gafael mewn diodydd yn gyfforddus; mae tai bach anabl yn cael eu defnyddio'n gyfleusterau storio; neu mae staff yn cwestiynu a ddylai pobl anabl gael diod alcoholaidd, gan eu bod yn cysylltu anabledd gydag anaeddfedrwydd.

## Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Fynnu fod pob cyfleuster hamdden sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn cynnal archwiliad o'u hygyrchedd i bobl anabl.
- Mynnu fod pob campfa sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn cynnwys isafswm o dri darn o offer a addaswyd i'w defnyddio gan bobl anabl (er enghraifft, peiriant seiclo wedi'i addasu).
- Mynnu fod pob campfa sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn cael o leiaf un 'awr dawel' y dydd, pan na fydd cerddoriaeth uchel yn cael ei chwarae.
- Mynnu fod pob pwll nofio sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn gwbl hygyrch ac yn cynnwys teclyn codi a gwelyau newid.
- Cynnwys pobl anabl mewn unrhyw ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ynghylch teithiol llesol, defnyddio canolfannau hamdden awdurdodau lleol.
- Mynnu fod holl staff awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyfleusterau hamdden yn cael hyfforddiant hyderus o ran anabledd.
- Gweithio gyda thafarnau a bwytai i wella pob agwedd ar fynediad i bobl anabl.

Mae diffyg lleoedd **chwarae** cynhwysol a diogel ar gyfer plant anabl a'u cyfeillion hŷn yn gallu golygu nad yw plant anabl yn ymarfer eu cyrff. Mae diffyg lleoedd cymdeithasol sy'n darparu ar gyfer anghenion hygyrchedd pobl anabl yn destun pryder mawr hefyd.



## Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Sicrhau y bydd unrhyw le chwarae cyhoeddus newydd a ddatblygir yn cynnwys arolwg chwarae hygyrch, a gynhelir gydag arbenigydd ar gyswllt neu hygyrchedd anabledd yn bresennol.
- Blaenoriaethu arian ar gyfer lleoedd chwarae hygyrch mewn cymunedau.



8

# Gwella llythrennedd digidol ymhlith pobl anabl

Mae mynediad at dechnoleg ddigidol yn anwastad, a'r sawl y gellid dadlau y mae ganddynt fwyaf i'w ennill o ddefnyddio gwasanaethau digidol sydd aml leiaf tebygol o allu gwneud hynny. Canfu Llywodraeth Cymru mai dim ond 79 y cant o bobl a chanddynt salwch, anabledd neu lesgedd cyfyngol hir sefydlog sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, o gymharu â 93 y cant o bobl heb gyflwr o'r fath [10] - mae angen unioni'r anghydbwysedd hwn.

**Dim ond 79 y cant o bobl anabl yng Nghymru sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, o gymharu â 93 y cant o bobl nad ydynt yn anabl.**

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:**

- Gynyddu'r arian a ddarperir ar gyfer hyfforddiant, offer TGCh a Wi-Fi ar gyfer pobl anabl yng Nghymru i wella cynhwysiant digidol a mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd.

[10] Llywodraeth Cymru, Defnyddio'r rhyngrwyd a sgiliau digidol (Arolwg Cenedlaethol Cymru) 2018-19, https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/internet-use-and-digital-skills-national-survey-wales-april-2018-march-2019-207.pdf



9

# Cadw arweinyddiaeth fyd-eang y DU ar gynnwys pobl anabl mewn rhaglenni datblygu rhyngwladol

Ar 16 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bwriad i uno'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad er mwyn sefydlu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO).[11] Mae'n hollbwysig fod y Swyddfa newydd yn parhau i leisio dros gynnwys pobl anabl yn ei gwaith, fel na chaiff neb eu gadael ar ôl yn ymrwymiadau, uchelgeisiau a gweithredoedd y gwledydd hyn i symud tuag at ddatblygu cynaliadwy.

**Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau:**

- Bod y DU yn parhau i gyflawni ei chyfrifoldeb cyfreithiol i neilltuo 0.7 y cant o GDG ar gyfer cymorth rhyngwladol, gan ei ddyrannu yn unol â diffiniadau cydnabyddedig yr OECD-DAC o Gymorth Datblygu Swyddogol (ODA).
- Bod y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu newydd yn ymrwymo i barhau i weithredu Strategaeth Cynnwys Anabledd 2018-2023 yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, gan sicrhau y bydd pobl ag anableddau yn parhau'n ganolog i weithgareddau datblygu rhyngwladol.
- Bod y DU yn cynnal ei ymrwymiad cryf i 12 mlynedd o addysg o ansawdd i bob merch, a bod merched ag anableddau yn cael eu cynnwys yn llawn ymhob ymdrech i gyflawni hyn.
- Bod y DU yn cynnal yr ymrwymiad i sicrhau cyfleoedd cyfartal i gael swyddi derbyniol i bawb mewn gwledydd incwm isel a chanolig, a chydnabod fod y bobl sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf, gan gynnwys pobl anabl, angen cymorth arbennig i gael a chadw cyflogaeth ystyrlon.

[11] https://www.gov.uk/government/news/prime-minister-announces-merger-of-department-for-international-development-and-foreign-office



# Eisiau cymryd rhan?

**Cysylltwch â'n swyddog polisi ac ymgyrchoedd Emma Burke**

Emma.Burke@leonardcheshire.org

@LeonardCheshireWales

@LCCymru

leonardcheshire.org

Leonard Cheshire Disability is a registered charity no: 218186 (England & Wales) and no: SC005117 (Scotland), and a company limited by guarantee registered in England no: 552847. VAT no: 899 3223 75. Registered office: 66 South Lambeth Road, London SW8 1RL.